

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR CABINET PARC COFFA YNYSANGHARAD

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Cabinet Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei gynnal fore Mawrth, 1 Awst 2017 am 10.30am ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

R. Bevan (Cadeirydd)

M. Webber A. Crimmings

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr y Cabinet a

Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol

a Llywodraethol

Mr D. Batten – Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a

Chefn Gwlad

Mr P. Mortimer – Rheolwr Cyllid a Gweithredu

Mr J. Spanswick – Rheolwr Parciau a Chefn Gwlad

Ms M. Morgan-Evans – Cynorthwy-ydd Adnoddau Adfywio

1. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

2. COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Cabinet Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2016, yn rhai cywir.

3. PARC COFFA YNYSANGHARAD - CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI: RHAGLEN 'PARCIAU I BOBL'

Cyflwynodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chyflwyno cais 'Parciau i Bobl' Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Amlinellodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad y broses dau gam mewn perthynas â chyflwyno ceisiadau i raglen 'Parciau i Bobl' Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a'r cyntaf o'r rhain i ddatblygu prosiect y mae arian cyfatebol wedi'i nodi ar ei gyfer drwy'r gronfa cymorth prosiect (Cafodd ymddiriedolwyr eu hatgoffa bod oddeutu £4 miliwn y flwyddyn ar gael yn rhan o'r rhaglen ar gyfer ceisiadau o'r DU). Ar gyfer prosiectau sydd dros £1 filiwn, mae'n ofynnol ar gam 2 i gael arian cyfatebol o 10%.

Bydd cais cam 1 yn cael ei gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri erbyn y dyddiad cau, sef, 31 Awst 2017. Cafodd elfennau craidd y prosiect eu rhestru, sef, datblygu cyfleuster hyfforddiant garddwriaeth, adnewyddu'r llwyfan bandiau, gwella'r ardal greigiog ffug ynghyd â gwella mynediad ym mhob rhan o'r parc. Cadarnhaodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad y byddai costau refeniw ar gyfer datblygu rhaglen gwirfoddoli / Grŵp Cyfeillion yn y parc yn cael eu cynnwys yn rhan o'r cais. Rhoddodd ganmoliaeth i'r Carfanau Adfywio a Pharciau, a'u gwaith ar y cyd, i wneud swm sylweddol o waith sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cais.

Dywedodd y Rheolwr Ariannu a Gweithredu, bod llawer o gynnydd wedi'i wneud ers Rhagfyr 2016 i lunio'r cais ar gyfer Awst 2017. Ychwanegodd y byddai'r penderfyniad yn un cenedlaethol a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Pe bai'n llwyddiannus, byddai cam dau yn cael ei gyflwyno erbyn Awst 2018 a chael ei gyflawni erbyn Ionawr 2020.

Adroddwyd y disgwylir i'r cyflwyniad cam un gynnwys cyfanswm cost y prosiect; eglurodd y Rheolwr Gweithredu mai £1.5 filiwn fyddai hynny, wedi'i seilio ar waith a gomisiynwyd yn ddiweddar, ac wrth ystyried mentrau Parciau i Bobl eraill ledled y DU.

Cadarnhaodd y swyddogion fod yr ymgynghoriad diweddar wedi dangos cefnogaeth gref gan drigolion lleol a defnyddwyr y parc a chanol tref Pontypridd yn ogystal ag ysgolion lleol. Teimlwyd y byddai'r cynnig yn parhau i gryfhau llwyddiant y Lido a rhoi cyfle i'r Cyngor wella profiad ymwelwyr i'r parc yn gyffredinol.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r holl swyddogion hynny a oedd ynghlwm wrth lunio'r cynnig ac roedd e'n falch o gael nodi mai hwn oedd yr unig gynnig o Gymru. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd y bydden nhw, fel Ymddiriedolwyr, ynghlwm wrth ddatblygu grŵp Cyfeillion.

CYTUNWYD:

a) Nodi'r cynnydd a wnaed a chefnogi cyflwyno cais cam 1 'Parciau i Bobl' ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad erbyn 31 Awst 2017; ac,

b) Rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i newid y broses cyflwyno cais mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden ar yr amod na fyddai'r newidiadau yn newid natur y cynllun yn sylweddol.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

4. PARC COFFA YNYSANGHARAD - MEYSYDD CHWARAE CYMRU - RHAGLEN MEYSYDD CANMLWYDDIANT

Cyflwynodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Pwyllgor Parc Coffa Ynysangharad i ymgymryd â gweithred gysegru gan roi statws 'Maes Canmlwyddiant' Meysydd Chwarae Cymru i Barc Coffa Ynysangharad.

Adroddwyd bod Meysydd Chwarae Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llenng Brydeinig Frenhinol i gyflwyno'r rhaglen i'r safleoedd a mannau addas hynny sy'n cynnwys parciau a meysydd hamdden sydd â chysylltiad sylweddol â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyrir bod y gwaith a wnaed eisoes i gefnogi cyflwyno cais Parciau i Bobl Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi canolbwyntio ar yr angen i godi proffil Parc Coffa Ynysangharad yn Faes Canmlwyddiant.

Rhoddodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad amlinelliaid o'r rhaglen Meysydd Canmlwyddiant a'i hamcanion, ac ychwanegu y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor yn dilyn cyflwyno'r cais ac ymweliad â'r safle gan Feysydd Chwarae Cymru, ac yn amodol ar gwblhau dogfennau cyfreithiol priodol, er mwyn datblygu'r fenter.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd cynrychioli ein Lluoedd Arfog ledled y Fwrdeistref Sirol a phwysleisio arwyddocâd cysegru Parc Coffa Ynysangharad a fyddai'n cryfhau ei broffil ymhellach.

CYTUNODD y Pwyllgor Cabinet:

- a) i gysegru Parc Coffa Ynysangharad yn Faes Canmlwyddiant; ac,
- b) i gyflwyno cais i Feysydd Chwarae Cymru i gysegru Parc Coffa Ynysangharad yn Faes Canmlwyddiant, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am

**Y Cynghorydd R Bevan
Cadeirydd**